CYNGOR CYMUNED LLANWNDA

COFNODION - MEHEFIN 2015

DYDDIAD	Nos Fercher, 17 Mehefin
AMSER	7.00pm
LLEOLIAD	**Canolfan Bro Llanwnda**

1.	**Croeso** Jason Hunt, Nerys Evans, Michelle Williams, Elin Evans, Gwilym V Thomas, Gwilym V Williams.
2.	**Ymddiheuriadau** Rhys Owen, Tom Ellis, Aeron M Jones, Elwyn Jones, Mi gadeiriodd Nerys Evans y cyfarfod gan nad oedd Neal Williams y Cadeirydd nac Rhys Owen yr Is-Gadeirydd yn bresennol. Clerc i yrru nodyn at NW – ydy o'n fodlon parhau fel Cadeirydd yn sgil diffyg presenoldeb?
3.	**Datgan Buddiant** Dim i'w nodi
4.	**Cadarnhau cofnodion 20 Mai 2015** Cadarnhau fod y cofnod yn gywir.
5.	**Materion i'w trafod:** **a) Bagiau tarmac shavings rhwng Rhosgadfan a Waunfawr (MW)** Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd yn adrodd ei fod wedi adrodd ar y tipio anghyfreithlon yma. Nodwyd fod y bagiau wedi mynd bellach. **b) Plannu bylbiau (EJ)** Clerc wedi gofyn am bris gan Twt a Thaclus, Groeslon a bydd yn cyflwyno pris yn y cyfarfod nesaf. **c) Wal ger Mountain Rangers (NW)** Adran Priffyrdd yn cadarnhau ei fod wedi anfon llythyr at Mr Spice yn gofyn iddo drefnu i drwsio y wal a nodi eu bod yn monitro cyflwr y wal yn y cyfamser. **d) Cytundeb Clerc** Clerc wedi drafftio cytundeb. Aelodau yn derbyn y cytundeb newydd. Bydd angen i'r Cadeirydd (NW) ei arwyddo yn y cyfarfod nesaf.
6.	**Derbyn Adroddiadau** a) **Loriau chwarel yn mynd drwy Rhosgadfan** – Clerc yn nodi ei fod wedi derbyn ymateb canlynol gan yr Adran Gynllunio – *"Amgaeaf er eich cyfer, gopi o ganiatad diweddar chwarel Moel Tryfan, lle mae amod 6 wedi'i ddiwygio er mwyn cynyddu'r allbwn o 10,000 tunnell y flwyddyn i 20,000 tunnell. Mae'r amod hefyd yn cyfyngu'r nifer o lwythi i 4 y dydd, sef cyfanswm o 8 symudiad. I ategu'r hyn mae'r adran briffydd yn ei ddweud, nid oes unrhyw gytundeb i gyfyngu llwybrau cludiant ar hyd ffyrdd lleol."* Aelodau yn datgan pryder fod y ffyrdd yn cael eu chwalu gan y loriau ac yn amau fod yr amodau hyn yn cael eu torri. Clerc i wneud ymholiadau ynglyn a trefniadau monitro cydymffurfiaeth gyda'r amodau hyn. b) **Tir ger Sain** – Clerc yn adrodd ei bod wedi derbyn neges ffon gan y Swyddog Gorfodaeth Cynllunio yn nodi eu bod yn cael trafferth darganfod perchenog y tir. Yr ymateb gan Cyngor Gwynedd ddim digon da, mae'r

	mater hwn yn parhau ers blynyddoedd bellach, pryderon yn parhau. Mae angen bod yn fater agenda sefydlog nes mae'r mater wedi ei ddatrys. c) **Pont Carreg Lwyd** – 3 contractwr wedi cael cyfarfod safle gyda Elwyn Jones. Ond, erbyn hyn mae'r Cwmni Rheilffordd yn son eu bod yn bwriadu gosod peipiau. Felly, penderfyniad i ddal ymlaen am ychydig nes wedi derbyn cadarnhad gan y cwmni rheilffordd ynglyn a beth maent yn bwriadu gwneud yno.
7.	**Is-bwyllgorau** Dim i adrodd arno.
8.	**Adroddiad Ariannol (i'w gyflwyno yn y cyfarfod)** Nododd y clerc fod llog yn isel iawn yn y cyfrif cadw. Gan ein bod yn cadw arian i un ochr ar gyfer gwaith y fynwent byddai'n syniad ceisio agor ISA i greu cronfa mynwent. Clerc i wneud ymholiadau i weld os oes gwell llog i'w gael.
9.	**Materion Cynllunio** 1 Coedanna Terrace Rhosgadfan – dim sylw
10.	**Gohebiaeth a chylchgronnau** Rhannwyd flyer gyda manylion diweddaraf am ffordd osgoi Bontnewydd a dyddiadau sesiynau i'r cyhoedd.
11.	**Materion Cyfarfod Nesaf** **GVT –** Prosiect Arbed Ynni Carmel a Fron – oes bwriad i ymestyn i weddill yr ardaloedd? **EE –** Cysgodfan yn ymyl Menai View, Dinas - cwyn fod golwg arno. Pryd mae'r Cyngor yn torri gwair? dod allan o junction ffrwd cae du yn beryglus, gwair yn uchel iawn. Angen llythyr yn gyffredinol, amryw o lonydd yn beryglus oherwydd uchtwr y gwair ac mae'n culhau lonydd. Maes Parcio Arman Dinas – lot o geir ar werth yno, oes caniatad i wneud hyn? **NE –** Japanese knotweed ar damaid o dir wrth lwybr yn Rhostryfan (Glan Wern - lawr am Derwen Las wrth yr afon). Amau mai tir comin ydy o. Cae wrth Pen y Ceunant Rhostryfan, Pwyllgor y neuadd sydd biau'r cau. Heb gael ei dorri ers tro a mae'r gwair yn uchel. Hysbysfwrdd mynwent – angen cefn newydd. **ME** - Rhosgadfan - Pen lon wen (mynd am Waunfawr) – mae cwnion fod lot o sbwriel. **RO –** Gwrych yn llydan ac yn culhau y ffordd yn Dinas. Hefyd cefn station house ar y ramp i fyny i bont y rheilffordd, mae llwyni yma wedi mynd yn drwchus iawn ac yn tyfu dros y kerb/culhau y ffordd. **GWLL** – Bus stop Rhos Isaf, dail poethion yn tyfu mewn ynddo, angen taclo. **Dyddiad: 15 Gorfennaf 2015** **Lleoliad: Ysgol Rhosgadfan**